



Natur Gwynedd

Gofalu am ein bioamrywiaeth o'r môr i'r mynydd

Crynodeb

www.gwynedd.gov.uk/bioamrywiaeth



Ffotograffau:
Michael Leach, Paul Kay,
Ian MacFadyen, Darin Smith



Bioamrywiaeth Cymru



Biodiversity Wales

Beth yw BIOAMRYWIAETH a BLE fedra i ddod o hyd iddo?

Carpedi o Glychau'r Gog mewn coedwig dderw yn y gwanwyn. Gweision y Neidr lliwiau'r enfys yn gwibio dros bwll yn yr ardd. Cri hiraethus y Gylfinir ar noson wlyb yn yr Hydref.

Mae bioamrywiaeth - yr amrywiaeth o blanhigion ac anifeiliaid rydym ni'n rhannu'r blaned hon gyda nhw - o'n cwmpas ym mhob man yma yng Ngwynedd.

Mamaliaid, adar, pysgod, ymlusgiaid, amffibiaid, creaduriaid di-asgwrn-cefn a phlanhigion, mae rhai yn fwy amlwg ac yn fwy adnabyddus nag eraill. Ac mae eu bodolaeth nhw i gyd yn dibynnu ar gynefinoedd. Ein coetiroedd, gwlyptiroedd, afonydd a'r moroedd o gwmpas ein glannau yw eu systemau cynnal bywyd nhw. "Natur Gwynedd"!

Beth sy'n digwydd i'n BIOAMRYWIAETH ni?

Mae llawer o'n bioamrywiaeth wedi bod yn dirywio ers degawdau. Mae'r DU wedi colli dros 100 o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliaid yn y ganrif ddiwethaf. Mae llawer mwy ar eu ffordd i ddifodiant. Mae rhai o rywogaethau Gwynedd a oedd yn gyffredin ar un adeg, fel yr Ehedydd a'r Cornchwiglen, aderyn tir y fferm sy'n byw ar borfeydd gwlyb, wedi dirywio'n aruthrol. Mae llawer o flodau lliwgar ein gweirgloddiau a'n cloddiau, a'r trychfilod sy'n dibynnu arnyh nhw, wedi dirywio hefyd.

Pam? Yn bennaf oherwydd bod eu cynefinoedd wedi dirywio. Mae coedwigoedd wedi eu torri. Mae dolydd yn drwch o flodau fel Cribau San Ffraid llosg-binc wedi eu haredig. Mae gwlyptiroedd, gyda'u planhigion fel yr Iris Farfog fenyn-felen, wedi eu draenio o ddŵr.

LLYWODRAETHAU'N ARWAIN Y Ffordd:

Fe gafodd yr angen i weithredu'n fyd - i stopio dirywiad bioamrywiaeth ei gydnabod yn Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygiad Gynaliadwy, yn Johannesburg yn 2002. Fe ymrwymodd arweinwyr trwy'r byd eu hunain i leihad sylweddol yn y raddfa bresennol y mae bioamrywiaeth yn dirywio erbyn 2010.

Pam mae BIOAMRYWIAETH mor bwysig?

Mae'r planhigion ac anifeiliaid - bioamrywiaeth - o'n cwmpas yn cyfoethogi ein bywydau. Meddyliwch am gôr o adar yn canu ar fore o wanwyn. Neu am fynd am dro ar hyd llwybr llawn blodau yn y wlad yn yr haf. Oherwydd bod un rhywogaeth o blanhigyn neu anifail yn dibynnu ar y llall, mae bioamrywiaeth yn we gymhleth o ryng-ddibyniaeth. Ac rydym ni'n rhan o'r we honno. Meddyliwch, er enghraifft, am yr hyn fyddai'n digwydd pe byddwn ni'n colli ein gwenyn i gyd. Prin fyddai'r cynyddu fyddai fyth yn cael eu peillio ac yn mynd i had. Byddai llawer o'n cyflenwad bwyd yn diflannu. Dim ond un rheswm pam na fedrwn ni gynnal ein bywydau heb fioamrywiaeth.

Felly beth rydym ni'n ei wneud dros FIOAMRYWIAETH?

Fel un o'r prif weithredoedd a ddaeth o arwyddo'r Cytundeb Bioamrywiaeth yn "Uwchgynhadledd Y Byd" yn Rio de Janeiro yn 1992, mae Llywodraeth y DU wedi symblu creu cynlluniau ar gyfer yr holl rywogaethau a chynefinoedd o dan fygythiad yn y DU. Roedd y rhain yn datgan pa ddulliau gweithredu sydd eu hangen i gryfhau'r boblogaeth o blanhigion ac anifeiliaid o dan fygythiad ac i gynyddu'r arwynebedd o gynefinoedd sydd ei angen arnyh nhw.

Mae'n rhaid i'r rhan fwyaf o'r dulliau gweithredu yma gael eu gwneud yn lleol - un ai gan gyrff cadwraethol, mudiadau gwirfoddol, Awdurdodau Lleol neu unigolion. Fel arfer fe wneir y gwaith gan nifer o'r rhain gyda'i gilydd - mewn partneriaethau. Mae'r gweithredoedd wedi eu datgan mewn Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol fel hon, "Natur Gwynedd".

Datblygu NATUR GWYNEDD

Fe ddechreuom "Natur Gwynedd", ein Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol, drwy adeiladu'r partneriaethau yma. Fe gynhalion ni ddwy seminar fioamrywiaeth gyhoeddus, yn 1999 a 2000, i ysgogi diddordeb yn lleol, i drafod y broses ac i gynhyrchu rhestr o rywogaethau a chynefinoedd prin a nodedig i'r sir. Yna, gyda'n partneriaid, fe luniwyd Cynlluniau Gweithredu rhywogaethau a chynefinoedd - 33 hyd yn hyn - ar gyfer y planhigion a'r anifeiliaid a glustnodwyd gennym. Fe ymgynghorwyd gydag arbenigwyr perthnasol i gael y cyngor gorau bosib ac fe ddiweddarwyd y ddogfen gyfan yn 2003 ar ôl rhagor o ymgynghori cyhoeddus.



Clustog Fair pinc a Gludlys Arfor gwyn ar glogwyni Mynydd Cilan, Pen Llŷn, Mai 2004.


AMCANION NATUR GWYNEDD

- I helpu i warchod bioamrywiaeth Gwynedd ac, felly, i gyfrannu at gadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru, y DU a'r byd.
- I ddatblygu partneriaethau lleol effeithiol i sicrhau bod yr hyn rydym ni'n ei wneud yn cael ei gynnal yn y tymor hir.
- I gynyddu'n gwybodaeth o fioamrywiaeth Gwynedd.
- I godi ymwybyddiaeth gyhoeddus o fioamrywiaeth yng Ngwynedd.

PARTNERIAETH Natur Gwynedd

Mae nifer fawr iawn o unigolion a mudiadau yn rhan o bartneriaeth Natur Gwynedd. Yn ogystal â Chyngor Gwynedd mae'n cynnwys Asiantaethau fel Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, mudiadau gwirfoddol fel Gwarchodwyr Cefn Gwlad Cymru a Chymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru, Yr Undebau Ffermio, a Phrifysgol Cymru, Bangor. Mae rhai ohonynt wedi helpu i ysgrifennu'r cynlluniau ac fe fyddan nhw'n helpu i'w gweithredu. Mae eraill yn hyrwyddo eu pwysigrwydd er mwyn codi proffil Natur Gwynedd.

Mae Natur Gwynedd yn cynnwys ardaloedd Sir Gwynedd y tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae'r ardal hefyd yn ymestyn i'r môr ac yn cynnwys amrywiaeth o rywogaethau a chynefinoedd morol, ac, yma nid oes ffin wedi ei gosod.



GWEITHREDU'R cynllun

Hyd yn oed tra roedd Natur Gwynedd yn cael ei ysgrifennu, roedd y gwaith ymarferol wedi cychwyn. Er enghraifft, mae arolygon wedi cael eu gwneud i gofnodi Llygod y Dŵr. Mae blychau nythu wedi cael eu gosod i annog y Dylluan Wen brin. Rydym wedi bod yn addysgu a chodi ymwybyddiaeth drwy gynghori ysgolion ar wella eu tir er budd bioamrywiaeth.

Yn ystod gwanwyn a haf 2004 fe aeth sioe ar daith Natur Gwynedd i gymaint o gymunedau â phosib. Fe fu staff a gwirfoddolwyr o lawer o fudiadau o fewn y partneriaethau yn siarad am wahanol agweddau o fioamrywiaeth Gwynedd, gan gynnwys Sglefrod Môr a Chrwbanoedd y Môr, adar tir y fferm a gwffynod. Fe arweiniwyd teithiau cerdded gan eraill. Ymhlith y digwyddiadau poblogaidd i blant roedd taith i astudio pyllau'r trai a phrynhawn o gerflunio tywod y môr.



Creu cerfluniau tywod ar draeth y Graig Ddu, Natur Gwynedd ar Daith, Mai 2004. Llun gan Paul Kay.

CYNEFINOEDD yng Ngwynedd

Mae gan Gwynedd amrywiaeth o gynefinoedd. Mae bryniau a rhostiroedd, gwlyptiroedd, coetiroedd a chynefinoedd morol ymhlith rhai ohonyn nhw. Mae Cynlluniau Gweithredu wedi eu creu ar gyfer llawer ohonyn nhw er enghraifft:

COETIROEDD gan gynnwys coetiroedd derw yr ucheldir, coetiroedd ynn cymysg yr ucheldir, coed hynafol parciau...
...a choetiroedd gwlyb.



Golwg ar Goetiroedd Gwlyb

Mae'r rhain i'w gweld ar briddoedd sy'n sâl am ddraenio dŵr neu sy'n wlyb yn ystod rhai tymhorau, mewn gorllifiroedd afon, ar lethrau gwlyb dyffrynnoedd a chorsydd. Mae gwern, helyg neu fedw yn nodweddiadol o goetiroedd gwlyb. Rydym ni'n amcangyfrif bod yna tua 860 hectar i gyd, mewn darnau bach, wedi eu taenu ar draws Gwynedd. Mae nhw'n aml yn ffurfio clytwaith gyda chynefinoedd eraill. Mae gan rai o'r cynefinoedd eraill mae'n cyd-bodoli â nhw – fel gwlyptiroedd – a'r rhywogaethau sy'n dibynnu arnynt, fel Dyfrgwn ac Ystumod Pedol Lleiaf eu Cynlluniau Gweithredu eu hunain.

Mae rhai coetiroedd gwlyb wedi diflannu oherwydd torri coed. Mae esiamplau eraill wedi eu difrodi oherwydd diffyg draenio, llygredd dŵr a phlanhigion toreithiog fel Canclwm Siapaneaid.

Esiampol o weithredu:

Ceisio am arian i wella rheolaeth coetiroedd trwy ddatblygu cynllun sy'n cynnwys talu grantiau i berchnogion i adnewyddu a/ neu greu coetiroedd gwlyb.

Targed / amserlen: Erbyn 2005.

Gan bwy: Cyngor Gwynedd a phartneriaid perthnasol.



Gwyllo'r môr o Uwchmynydd. Natur Gwynedd ar Daith, Mehefin 2004.

ISELDIROEDD gan gynnwys ymylon caeau, rhostiroedd, dolydd a phorfeydd, gwrychoedd... ...a chloddiau traddodiadol.



Golwg ar Gloddiau

Mae cloddiau'n nodweddiadol o Ben Llŷn. Maent wedi eu gwneud o foncyn o bridd, fel arfer â wyneb cerrig, o bosib gyda gwrych wedi ei blannu ar ei ben. Maent yn nodweddiadol bwysig o'r tirlun – ac yn gynefinoedd gwych ar gyfer planhigion ac anifeiliaid gan gynnwys creaduriaid di-asgwrn-cefn, amffibiaid, ymlusgiaid a mamaliaid bychain. Mae gan rhai o'r rhain eu Cynlluniau Gweithredu eu hunain gan gynnwys Clychau'r Gog, Brain Coesgoch a Gwiberod.

Gwaredwyd rhai cloddiau er mwyn creu caeau mwy. Mae eraill wedi eu difrodi. Mae angen eu cynnal a'u cadw, mae llawer ohonyn nhw wedi eu hesgeuluso. Mae sgiliau cynnal a chadw traddodiadol wedi eu colli. Mae torri llystyfiant yn llym gyda pheiriannau, neu ei dorri ar yr amser anghywir o'r flwyddyn yn un o nifer o broblemau.

Esiaml o weithredu:

Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau bod datblygiadau mewn lleoliadau sensitif yn gyson gyda chadwraeth cloddiau.

Targed / amserlen: Cyfredol

Gan: Cyngor Gwynedd a phartneriaid perthnasol.



Clawdd lliwgar ar Benrhyn Llŷn, Haf 2003.

Cynefinoedd **MOROL** ac **ARFORDIROL** gan gynnwys gwastadeddau lleidiog, morfeydd heli sy'n cael eu pori, twyni tywod, lagwnau heli, riffiau creigiog o dan y dŵr... ...a chlogwyni a llethrau morol.

Golwg ar glogwyni a llethrau Glan Môr



Mae llawer o Wynedd wedi ei amgylchynu gan y môr. Mae gan y clogwyni a'r llethrau sydd mor gyffredin mewn rhannau o'r sir, fel ar Benrhyn Llŷn, amrywiaeth eang o fathau o llystyfiant. Mae cennau yn ffynnu ble mae distrych hallt y don yn taro'r clogwyni. Yn uwch i fyny, mae llystyfiant yma a thraw ar wyneb y clogwyn ac ar lethrau'n troi'n borfeydd arfordirol, rhostiroedd a phrysgwydd ar gopaon y clogwyni. Mae'r clogwyni a llethrau yma'n hanfodol o bwysig i adar y môr, Brain Coesgoch a Gwenoliaid y Glennydd nythu, ac yn gartref i gacwn a rhai creaduriaid di-asgwrn-cefn prin. Mae gan rai ohonyn nhw eu Cynlluniau Gweithredu eu hunain.

Mae'n clogwyni a llethrau glan môr yn aml o dan fygythiad gan ddatblygiadau trefol a diwydiannol, llety gwyliau a newidiadau mewn arferion amaethyddol. Weithiau, mae'r adar y môr sy'n magu arnynt o dan fygythiad hefyd, oherwydd ysglyfaethu gan gathod a llygod mawr.


Esiaml o weithredu:

Clustnodi ardaloedd pwysig o glogwyni a llethrau glan môr yng Ngwynedd o wybodaeth ac arolygon sydd eisoes yn bodoli, gan gynnwys cennau pwysig yn y cylch. Targedu safleoedd allweddol i'w rheoli a'u hadnewyddu.

Targed / amserlen: Erbyn 2006

Gan: Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Canolfan ar gyfer Ecoleg a Hydroleg, Cyngor Gwynedd, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru, CFGA Cymru, Prifysgol Cymru Bangor.

GWLYPTIROEDD A CHYRSIAU DŴR gan gynnwys coridorau afon, porfa rhos, ffensiau, corsydd, gwlaau hesg, llynnoedd a phyllau.




Grug ac Eithin ar Uwchmynydd, ac Ynys Enlli yn y pellter.

RHYWOGAETHAU yng Ngwynedd

Mae yna lawer o rywogaethau o blanhigion ac anifeiliad yng Ngwynedd sydd o bwysigrwydd lleol. Ond mae rhai o'r rhain yn bwysig yng nghyd-destun Cymru a'r DU hefyd. Mae gan lawer ohonyn nhw eu Cynlluniau Gweithredu eu hunain. Ond bydd eraill yn elwa o well gofal a rheolaeth o'r cynefinoedd - neu o greu mwy o gynefinoedd.

MAMALIAID gan gynnwys Bele'r Coed, Ysgyfarnog, Dyfrgi, Ystlumod Pedol Lleiaf, Ffwlbartiaid... ...a Llygoden Ddŵr.



Golwg ar y Llygoden Ddŵr

Y Llygoden Ddŵr – y mwyaf o lygod y DU sy'n dwyn i gof yr hyfryd "Ratty" yn "Wind in the Willows". Maent tua 20 cm o hyd ac yn pwyso i fyny at 300g. Ar un adeg roedden nhw'n gyffredin ar hyd lannau cyrsiau dŵr a llynnoedd Prydain. Heddiw, credir mai nhw yw'r mamal sy'n dirywio gyflymaf yn y wlad hon. O fewn Gwynedd mae ein gwbyodaeth o niferoedd y Llygoden yn anghyflawn, ond fe allai Pen Llŷn fod yn gadarnle iddyn nhw.

Mae'r mamal rhyfeddol yma wedi dirywio oherwydd bod llawer o nentydd a phyllau wedi eu llygru; oherwydd bod yr ardaloedd gwlyb o'u cwmpas wedi eu draenio; ac oherwydd ysglyfaethu gan Fincod sydd wedi eu cyflwyno ac ysglyfaethiaid eraill.

Esiaml o weithredu:

Annog y cyhoedd i gofnodi y Llygoden Ddŵr ac i basio'r wybodaeth i Fenter Môn i'w gasglu, trwy gyhoeddi gwbyodaeth am niferoedd yn flynyddol a thrwy ddarparu cyngor ar gyfer tirseffianwyr a defnyddwyr afonydd.

Targed / amserlen: Cyfredol

Gan: Gyngor Gwynedd, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru.




Llygoden y Dŵr - Llun gan Michael Leach.

ADAR gan gynnwys Tylluan Wen, Bran Goesgoch, Cornchwiglen, Mwyalchen y Mynydd, Cnocell Werdd, Troellwyr ac adar tir y fferm fel grŵp.



Tylluan Wen - Llun gan Darin Smith.

PYSGOD gan gynnwys Lampreiaid, Eogiaid... ...a'r Torgoch.



Golwg ar y Torgoch

Pan maen nhw'n claddu, y Torgochiaid gwrywol yw'r pysgod mwyaf llachar eu lliw yn Ewrop. Mae eu poblogaeth yn Llyn Padarn yn unigryw'n enynol. Pan doddodd y rhewlifau yng Nghymru ar ddiwedd yr Oes y Rhew diwethaf, fe gafodd y pysgod yma eu hynysu yn y llyn a'u gwahanu oddi wrth unrhyw boblogaeth o Dorgochiaid mewn un neu ddau o lynnoedd eraill yng Nghymru ac mewn manau eraill.

Ond dydi eu poblogaeth ddim yn ddiogel o reidrwydd. Mae'n bosib bod llygredd o'r tir o gwmpas y llyn, o wrtheithwyr, plaladdwyr a sylweddau eraill yn eu niweidio.

Esiaml o weithredu:

Ystyried cyflwyno cynllun yn y dalgylch dŵr o gwmpas y llyn i leihau llygredd rhag mynd i Llyn Padarn.

Targed / amserlen: Erbyn 2006


Gan: Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Cyngor Gwynedd.

YMLUSGIAID AC AMFFIBIAID gan gynnwys y Wiber ac madfallod dŵr.

CREADURIAID DI-ASGWRN-CEFN gan gynnwys Brith y Gors, Misglen Berlog yr Afon, Malwod Troellog a'r Cricedyn Hirgron Llwyd.

RHYWOGAETHAU MOROL gan gynnwys Llamhidydd, Dolffiniaid, Crwban Môr Lledraidd a Morlo Llwyd.

PLANHIGION gan gynnwys Dŵr-lyriaid Nofiadwy, Pelenllys, Mwsogl Pluog Main Gwyrdd, Cen Melyn y Cerrig, Ffwng Cap Cwyr... ...a Chlychau'r Gog.



Golwg ar Glychau'r Gog

Yn niferus yn lleol yng Ngwynedd, mae Clychau'r Gog wedi eu cyfyngu i hinsawdd tamp pegwn mwyaf gorllewinol Ewrop. Y DU yw eu cadarnle trwy'r byd. Golygfa gyffredin mewn llawer o goetiroedd Derw ac ar hyd perthi a chloddiau, mae croeso mawr i Glychau'r Gog yn y gwanwyn. Mae gan Warchodfa Natur Leol Coed Dinorwig rai o'r carpedi mwyaf trawiadol yn y DU.

Ond mae Clychau'r Gog wedi dirywio wrh i goedwigoedd gael eu torri a pherthi a chloddiau eu dinistrio. Mae sathru gan anifeiliad a chasglu bylbiau'n anghyfreithlon hefyd wedi lleihau eu niferoedd.

Esiaml o weithredu:

Parhau i godi ymwybyddiaeth am sut mae anifeiliaid yn difrodi trwy sathru o dan draed ac annog pobl i beidio â phigo blodau neu godi bylbiau'n anghyfreithlon.

Targed / amserlen: Cyfredol

Gan: Cyngor Gwynedd, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru.



Coetir Gwynedd dan garped o Glychau'r Gog.



Craffu ar byllau'r trai, Natur Gwynedd ar daith, Gorffennaf 2004.

Syniadau am beth allwch CHI ei wneud i helpu Bioamrywiaeth Gwynedd:

1. Creu gardd sy'n gyfeillgar i fywyd gwyllt

10 GAIR O GYNGOR:

1. Plannwch flodau sy'n neithdar-gyfoethog i ddenu ieir bach yr haf a phryfaid. Bydd y rhain hefyd yn cynhyrchu ffrwythau ar gyfer adar a bywyd gwyllt eraill. Triwch sicrhau bod rhywbeth mewn blodau trwy'r flwyddyn.
2. Dewiswch blanhigion, llwyni a choed sydd â'u tarddiad yn lleol ac sy'n frodorol i'ch ardal chi.
3. Darparwch ddigon o lefydd i greaduriaid fyw a chysgodi, fel cerrig, tomenni o goed, ceudodau neu llwyni trwchus.
4. Plannwch eich gwrychoedd eich hunain gan ddefnyddio llwyni gwrych sy'n fordorol i'ch ardal neu gorchuddiwch ffens gyda llwyni dringo sy'n cynhyrchu digon o ffrwythau.
5. Defnyddiwch fin compost i wneud eich compost eich hun.
6. Gadewch ddigon o rannau gwyllt heb eu torri o wair ac os oes gennych le, beth am gynnal rhan o'r lawnt fel dŵl gyfoethog ei blodau.
7. Beth am osod bwrdd adar, bath adar, bocs nythu, bocs ystumod neu dŷ draenogod.
8. Peidiwch â defnyddio plaladdwyr – dewiswch ffyrdd naturiol i gadw malwod o dan reolaeth.
9. Plannwch goed brodorol i'ch ardal neu ychwanegwch bwl bas i'r ardd.
10. Gadewch iorwg i dyfu – mae'n cynnig cysgod ar gyfer adar, neithdar yn y gaeaf a ffrwythau ar ddechrau'r gwanwyn a thrwy hynny ddarparu ffynhonnell fwyd werthfawr i fywyd gwyllt.

I gael cymorth a chyngor cysylltwch â Phrosiect Garddio Bywyd Gwyllt Eryri – wedi ei leoli o fewn Swyddfeydd y Parc Cenedlaethol ym Mhenrhyndeudraeth ar (01766) 770274.

Cysylltwch â swyddog ailgylchu Cyngor Gwynedd (01286) 679872 i gael mwy o fanylion am finiau compost.

2. Beth am ymweld â gwarchodfa natur leol

Mae yna lawer o warchodfeydd natur yng Ngwynedd sy'n cael eu rhedeg gan amrywiaeth o wahanol fudiadau. Dyma rai gwefannau defnyddiol gyda manylion am sut i'w cyrraedd a beth sydd i'w weld yno:

www.ccw.gov.uk

www.wildlifetrust.org.uk/northwales

www.rspb.org.uk

www.gwynedd.gov.uk

3. Cofnodwch eich bywyd gwyllt lleol

Mae cadw cofnod o ble ry'ch chi'n gweld gwahanol blanhigion ac anifeiliad ac anfon y manylion yma at bartneriaeth Natur Gwynedd yn dros ben o ddefnyddiol wrth ein helpu ni i gadw a gwella ein bywyd gwyllt lleol.

Ein manylion cyswllt yw:

Swyddog Bioamrywiaeth, Uned Cefn Gwlad a Mynediad Cyfadran yr Amgylchedd, Pencadlys Cyngor Gwynedd Caernarfon, Gwynedd LL55 1SH

(01286) 672255

bioamrywiaeth@gwynedd.gov.uk